Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Cynllun Gweithredu: CEM Brynbuga ac YOI [Sefydliad Troseddwyr Ifanc] CEM Prescoed

Cynllun Gweithredu Wedi'i Gyflwyno: 19 Hydref 2021

Ymateb i Arolygiad HMIP: 14 - 25 Mehefin 2021:

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 01 Hydref 2021

Mae'n debygol y bydd camau yn ôl dyddiadau targed yn cael eu hoedi oherwydd amhariadau cysylltiedig â Covid-19 ar ddarparu gwasanaethau.

## CYFLWYNIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EM [HMIP] ac Arolygiaeth Prawf EM Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr a'u triniaeth. Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol [CRCs] a gwasanaethau troseddu ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder [MoJ] a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi [HMPPS]. Mewn ymateb i'r adroddiad mae'n ofynnol i HMPPS / MoJ ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu yn cadarnhau a gytunir ar argymhellion, y cytunir arnynt yn rhannol ai na chytunir arnynt [gweler y categorïau isod]. Pan yw argymhelliad yn cael ei gytuno neu ei gytuno'n rhannol, mae'r cynlluniau gweithredu'n darparu camau a chamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r camau'n glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda pherchennog ac amserlen pob cam wedi'i nodi'n glir. Anfonir cynlluniau gweithredu at HMIP a'u cyhoeddi ar Ganfyddwr Carchardai HMPPS ar y we. Bydd cynnydd yn ôl gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu hefyd yn cael ei fonitro a'i adrodd arno.

| **Term** | **Diffiniad** | **Sylw ychwanegol** |
|---|---|---|
| Wedi'i gytuno | Mae'r holl argymhelliad wedi'i gytuno, gellir ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy. | Dylai'r ymateb esbonio'n glir sut y cyflawnir yr argymhelliad ynghyd ag amserlenni. Dylai camau fod mor SMART [Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac Amser-rwymedig] â phosibl. Dylai camau fod yn ddigon penodol i gael eu holrhain ar gyfer cynnydd. |
| Wedi'i gytuno'n Rhannol | Dim ond rhan o'r argymhelliad y cytunir arno, sy'n gyraeddadwy, yn fforddiadwy ac y caiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb ddatgan yn glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei weithredu ynghyd â chamau gweithredu SMART a'u holrhaIn ar gyfer cynnydd.<br>Rhaid **cael** esboniad pam na allwn gytuno'n llawn â'r argymhelliad - rhaid i hyn ddatgan yn glir a yw hyn oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |
| Heb ei gytuno | Ni chytunir ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb ddatgan yn glir y rhesymau pam ein bod wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>Rhaid **cael** esboniad pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad - rhaid i hyn ddatgan yn glir a yw hyn oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |

CYNLLUN GWEITHREDU: ADRODDIAD HMIP

SEFYDLIAD: CEM BRYNBUGA AC YOI CEM PRESCOED

| 1. Rhif Cof | 2. Argymhelliad | 3. Wedi'i gytuno/ Wedi'i gytuno'n Rhannol/ Heb ei gytuno | 4. Ymateb Camau a Gymerwyd/a Gynlluniwyd | 5. Perchennog Cyfrifol | 6. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Pryderon ac argymhellion allweddol** | | | | |
| | **Wedi'i gyfeirio at y Llywodraethwr** | | | | |
| 6.1 | Pryder allweddol [1.41]: Fe wnaeth polisi dim goddefgarwch Prescoed ddychwelyd carcharorion i amodau caeedig heb roi ystyriaeth ddyledus i unrhyw liniaru, yr effaith gyffredinol ar y carcharor ac a oedd y penderfyniad yn ymateb cymesur. Roedd nifer y rhai a ddychwelodd i amodau caeedig o Prescoed yn uwch nag o'r mwyafrif o garchardai agored eraill.<br><br>**Argymhelliad allweddol: Dylid dychwelyd carcharorion i amodau caeedig dim ond ar ôl adolygiad ail-gategoreiddio priodol sy'n ystyried yr holl amgylchiadau yn llawn ac yn sicrhau bod y penderfyniad bob amser yn ymateb cymesur. [I'r llywodraethwr]** | Wedi'i gytuno | Ar hyn o bryd mae Uwch Dîm Rheoli YOI CEM Prescoed yn cynnal cynhadledd achos neu gyfarfod Tîm Rheoli Risg Rhyngadrannol i drafod y rhesymau pam mae carcharor yn cael ei ystyried ar gyfer dychwelyd i amodau caeedig. Yna ail-gategoreiddir ar system TG Gwasanaethau Digidol y Carchardai [DPS] sy'n nodi'n llawn y rhesymau dros ddychwelyd carcharor i amodau caeedig. Ychwanegir nodiadau achos sy'n amlinellu'r broses benderfynu.<br><br>Cyhoeddir polisi archwiliadwy ffurfiol yn rhoi manylion y broses i'w dilyn, ac yna caiff ei gadw fel cofnod penderfyniadau. Bydd y cofnod penderfyniadau yn cyfeirio at unrhyw fesurau cymorth a roddir ar waith i gefnogi'r carcharor. | Y Llywodraethwr<br><br>Y Llywodraethwr | Hydref 2021<br><br>Hydref 2021 |
| 6.2 | Pryder allweddol [1.42]: Roedd prif fferyllwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi rhoi'r gorau i ddarparu mewnbwn rheolaidd ym Mrynbuga a Phrescoed. Roedd hyn | Wedi'i gytuno | Mae goruchwyliaeth fferylliaeth ac adolygiadau meddyginiaeth yn parhau ac yn cael eu cyflenwi gan dîm Amlddisgyblaeth Gofal Iechyd. Mae tîm fferylliaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan [ABUHB] yn darparu mynediad o bell yn ôl yr angen, a bennir gan y Pennaeth Gofal Iechyd fel rhan o'r Bwrdd Partneriaeth y Carchar. | Llywodraethwr a Phennaeth Gofal Iechyd | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | wedi arwain at: fethiant i sicrhau bod meddyginiaethau'n briodol a bod cleifion yn gwybod sut i'w cymryd; dim digon o staff fferyllol i sicrhau bod y cyflenwad o feddyginiaethau yn ddiogel; ystod gyfyngedig o feddyginiaethau i gleifion eu prynu i drin mân anhwylderau neu nad oedd angen eu rhagnodi gan feddyg; a bylchau yn y gwaith o oruchwylio prosesau a gweithdrefnau gwasanaeth fferyllol.<br><br>**Argymhelliad allweddol: Dylai fod mwy o gyfranogiad gan fferyllwyr i oruchwylio safonau, protocolau a gweithdrefnau proffesiynol y gwasanaeth i sicrhau bod y cyflenwad o feddyginiaethau'n ddiogel. [I'r llywodraethwr]** | | Disgwylir i Fferyllydd Arenicola y Carchar ddychwelyd o'i adleoliad ar ddiwedd gofyniad wrth gefn COVID. Bydd hyn yn cau'r bwlch yn yr oruchwyliaeth o broses a gweithdrefn y gwasanaeth fferyllol.<br><br>Ym mhob ymgynghoriad Meddyg Teulu [GP] cynhelir adolygiad meddyginiaeth yn ffurfiol a'i gofnodi ar SystmOne [system gyfrifiadurol ar gyfer cofnodi cofnodion iechyd carcharorion]. Mae'r meddyg teulu hefyd yn cynnal goruchwyliaeth broffesiynol o bresgripsiynau ailadrodd.<br><br>Cynhyrchir adroddiadau rhagnodi rheolaidd trwy'r Grŵp Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer Bwrdd Partneriaeth y Carchar. | | |
| | **Argymhellion** | | | | |
| 6.3 | Argymhelliad [2.9]: Dylai pob newydd-ddyfodiad allu gwneud galwad ffôn ar eu noson gyntaf. [I'r llywodraethwr | Wedi'i gytuno | Mae pecyn sefydlu newydd wedi'i gyflwyno yn CEM Brynbuga, sy'n cynnwys canllawiau clir sydd wedi'u cyfathrebu i'r holl staff. Mae'n amlwg yn dogfennu bod rhaid i bob newydd-ddyfodiad gael cyfle i wneud galwad ffôn ar eu noson gyntaf.<br><br>Mae cyfrifon ffôn carcharorion yn cael eu gweithredu'n brydlon wrth gyrraedd y ddau garchar, ac mae PIN Lles ar gael i'r rheini na allant gyrchu eu cyfrif eu hunain. | Y Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau |
| 6.4 | Argymhelliad [2.30]: Dim ond ar sail cudd-wybodaeth neu amheuaeth benodol y dylid noeth-chwilio carcharorion. [Argymhelliad wedi'i ailadrodd 1.29] [I'r llywodraethwr] | Heb ei gytuno | Nid yw'r argymhelliad hwn wedi'i gytuno, gan fod yr argymhelliad yn cyfeirio'n benodol at chwilio carcharorion yn llawn ar Ymweliadau. Mae PSI 07/2016 yn datgan: 'Ymweliadau: Rhaid rhoi chwiliad rwbio Lefel A a sgan synhwyrydd llaw â llaw i garcharorion gwrywaidd fel mater o drefn yn dilyn ymweliadau. Yn ogystal, rhaid chwilio'n llawn ganran y carcharorion gwrywaidd | Y Llywodraethwr | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a ddewisir ar hap yn dilyn ymweliadau, ar lefel y cytunir arni fel rhan o strategaethau chwilio lleol.' | | |
| 6.5 | Argymhelliad [2.37]: Dylai cyfarfodydd rheoli diogelwch gael eu hintegreiddio'n llawn i'r ddau garchar a chael cynllun gweithredu effeithiol i ysgogi gwelliant parhaus. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Bydd CEM Brynbuga ac YOI CEM Prescoed yn cyflwyno cynllun gweithredu effeithiol parhaus ar gyfer y ddau garchar o Hydref 2021 ymlaen, a fydd yn cynnwys yr holl gamau gweithredu o gyfarfod y Ddalfa Ddiogelach [SC] ac yn mynd i'r afael â holl argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, a adolygir bob chwarter.<br><br>Er mwyn sicrhau bod mwy o ffocws ar YOI CEM Prescoed, adolygir yr agenda a phresenoldeb gorfodol yn y cyfarfod SC. | Y Llywodraethwr | Hydref 2021 |
| 6.6 | Argymhelliad [3.13]: Ni ddylid cadw carcharorion mewn celloedd aml-feddiannaeth sy'n rhy fach iddynt gael digon o le personol, dodrefn a phreifatrwydd. [I HMPPS] | Heb ei gytuno | Nid yw'r argymhelliad hwn wedi'i gytuno, gan fod meddiannaeth celloedd carchardai wedi'i ardystio gan Gyfarwyddwr y Grŵp Carchardai [PGD] yn unol â Chyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai [PSI] 17/2012, sy'n darparu canllawiau ar gyfer pennu capasiti celloedd. Dim ond pan fydd PGD wedi asesu eu bod o faint a chyflwr digonol y bydd celloedd yn cael eu rhannu. Hyd y gellir rhagweld, ac yn yr un modd â charchardai eraill, bydd angen i CEM Brynbuga barhau i weithredu gyda chapasiti gweithredol sy'n cynnwys lefel o orlenwi uwchlaw ei Llety Arferol Ardystiedig. Er bod y lleoedd hyn yn bodloni safonau HMPPS ar gyfer llety gorlawn, nod yw'n ddymunol dal dau ddyn mewn cell a ddyluniwyd ar gyfer un carcharor, er mwyn darparu ar gyfer pwysau poblogaeth genedlaethol.<br><br>Mae gorlenwi mewn carchardai yn fater hirsefydlog na fydd yn hawdd mynd i'r afael ag ef. Fodd bynnag, rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar y Llywodraeth i ymrwymo dros £4 biliwn o arian cyfalaf i wneud cynnydd sylweddol wrth ddarparu 18,000 o leoedd carchar ychwanegol ledled Cymru a Lloegr erbyn canol y 2020au. Mae hyn yn cynnwys creu pedwar carchar newydd dros y chwe blynedd nesaf ac ehangu pedwar carchar arall dros y tair blynedd nesaf. Mae'r gwaith adeiladu wedi hen ddechrau ar CEM Five Wells, y carchar newydd yn Wellingborough yn Swydd Northampton, ac mae'r gwaith wedi cychwyn yn Glen Parva, | HMPPS | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Swydd Gaerlŷr. Bydd y lleoedd carchar ychwanegol hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ostwng cyfran y gorlenwi yn ystâd y carchardai trwy ddarparu llety sy'n ddiogel, yn weddus ac sydd heb ei orlenwi. Fodd bynnag, bydd y graddau y bydd cyfran y carcharorion sy'n cael eu dal mewn llety gorlawn yn lleihau yn dibynnu ar lefelau'r galw yn y system. | | |
| 6.7 | Argymhelliad [3.21]: Dylai carcharorion sydd newydd gyrraedd ym Mhrescoed gael cynnig mynediad cynnar i ystod o nwyddau groser nes eu bod yn derbyn eu harcheb siop lawn gyntaf. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Bydd fforwm yn cael ei gynnal gyda charcharorion i fesur yr eitemau sy'n ofynnol yn y pecyn bwyd dros dro. Yna bydd YOI CEM Prescoed yn stocio'r pecynnau fel y cytunir gyda fforwm y carcharorion.<br><br>Bydd y pecynnau derbyn yn cael eu cynnig i garcharorion sydd newydd gyrraedd yn y carchar o Dachwedd 2021. | Y Llywodraethwr | Tachwedd 2021 |
| 6.8 | Argymhelliad [3.32]: Dylai arweinwyr a rheolwyr gyfuno'r camau a godir mewn fforymau nodweddiadol gwarchodedig a chyfarfodydd pwyllgor cydraddoldeb i ffurfio cynllun gweithredu cydraddoldeb sy'n cael ei graffu'n rheolaidd. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Cyflwynir cynllun gweithredu Cydraddoldeb cyfunol ar draws y ddau garchar. Bydd yn dal gweithredoedd o gyfarfodydd cydraddoldeb a fforymau nodweddion gwarchodedig a fydd yn cael eu hadolygu bob chwarter. Bydd y camau a nodir yn cael eu dyrannu i unigolyn a enwir ac yn olrhain cynnydd ym mhob cyfarfod Cydraddoldeb dilynol. | Y Llywodraethwr | Hydref 2021 |
| 6.9 | Argymhelliad [3.49]: Dylai arweinwyr carchardai sicrhau bod ystafell aml-ffydd ar gael sy'n addas ar gyfer ymarfer ffydd a darparu cefnogaeth un wrth un. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Fe wnaeth CEM Brynbuga gwblhau adolygiad llety ym mis Medi 2021, a phenderfynwyd adleoli'r Ystafell Aml Ffydd [MFR] i leoliad pwrpasol newydd ger y Capel.<br><br>Dechreuwyd ar y gwaith o drosi'r ystafell a nodwyd yn MFR ym mis Medi ac mae bellach wedi'i gwblhau. | Y Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau |
| 6.10 | Argymhelliad (3.50): Dylai arweinwyr carchardai sicrhau bod fforymau ffydd yn cael eu cyflwyno i fynd i’r afael ag anghenion carcharorion gyda phryderon sy’n ymwneud â ffydd. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Bydd arweinydd y Gaplaniaeth yn cyflwyno fforwm ffydd a gynhelir bob yn ail fis o Hydref 2021 ymlaen, a gwahoddir cynrychiolwyr o bob ffydd i fynychu. | Y Llywodraethwr | Hydref 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.11 | Argymhelliad [4.8]: Dylai arweinwyr sicrhau bod llyfrgellwyr ar y ddau safle i roi cymorth i garcharorion sy'n gweithio yno, gwirio bod stociau'n cael eu hail-lenwi ac adfer cysylltiadau â llyfrgell Sir Fynwy. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Mae recriwtio ar gyfer y swydd llyfrgellydd yn mynd yn fyw ym mis Hydref 2021, a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal Tachwedd 2021.Bydd y person a benodir yn gweithio ar draws y ddau garchar ac yn sicrhau bod stociau llyfrgelloedd yn cael eu hail-lenwi. Bydd hyn yn cyfateb i 30 awr o ddarpariaeth llyfrgellydd Cyngor Sir Fynwy ar draws y ddau safle. | Y Llywodraethwr a'r Pennaeth Dysgu a Sgiliau | Rhagfyr 2021 |
| 6.12 | Argymhelliad [4.9]: Dylai arweinwyr lenwi swyddi gwag hyfforddwyr AG a rhoi mwy o fynediad i'r gampfa i bob carcharor. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Mae proses ddethol yn mynd rhagddi ar hyn o bryd ar gyfer Hyfforddwyr Addysg Gorfforol posibl. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus gychwyn ar eu hyfforddiant ym mis Ionawr 2022.<br><br>Roedd mesurau penodol i COVID i gadw pobl yn ddiogel yn cyfyngu mynediad i'r gampfa ar adeg yr arolygiad. Mae'r cyfyngiadau hyn bellach wedi esmwytho ac wedi ein galluogi i ddarparu mwy o weithgarwch corfforol i garcharorion. | Y Llywodraethwr | Ionawr 2022 |
| 6.13 | Argymhelliad [4.24]: Dylai rheolwyr wella mynediad carcharorion at ddysgu seiliedig ar TG ac adnoddau rhyngweithiol er mwyn cryfhau eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Mae CEM Brynbuga ac YOI CEM Prescoed wedi cael gliniaduron wedi'u huwchraddio i wella mynediad carcharorion at ddysgu sy'n seiliedig ar Dechnoleg Gwybodaeth.<br><br>Mae arweinydd y Rhith Gampws [VC] yn archwilio opsiynau i ddatrys y materion y mae'r carchar wedi'u cael gyda'r system, fel y gellir galluogi'r system, a gellir adfer ei hymarferoldeb. Mae hyn yn amodol ar ryddhau cyllid i wneud yr atgyweiriadau angenrheidiol, y rhagwelir y bydd yn digwydd erbyn Ebrill 2022.<br><br>Mae'r llythrennedd a'r rhifedd rhyngweithiol ar system o'r enw Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru [WEST] nad yw ar gael eto yn CEM Brynbuga neu YOI CEM Prescoed. Disgwylir iddo gael ei osod yn ystod y 12 mis nesaf. | Y Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau<br><br>Ebrill 2022<br><br>Rhagfyr 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.14 | Argymhelliad [4.25]: Dylid cryfhau ymlyniad y carchar â'i strategaeth Gymraeg ymhellach. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Er mwyn cryfhau strategaeth Gymraeg y carchardai, bydd archwiliad cydymffurfio Iaith Gymraeg yn cael ei gwblhau, a bydd y cynllun gweithredu'n cael ei ddiweddaru. | Y Llywodraethwr | Rhagfyr 2021 |
| 6.15 | Argymhelliad [5.9]: Dylai arweinwyr sicrhau bod carcharorion yn gallu gwneud galwadau ffôn yn breifat. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Mae gan bob ffôn asgell naill ai cwfl preifatrwydd neu maent wedi'u hamgáu o fewn blwch ffôn coch sy'n rhoi preifatrwydd i'r galwr, y gall pob carcharor ei gyrchu'n ddyddiol. | Y Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau |
| 6.16 | Argymhelliad [5.10]: Dylid gosod teleffoni mewn celloedd. [I HMPPS] | Wedi'i gytuno'n Rhannol | Mae'r argymhelliad hwn wedi'i gytuno'n rhannol gan fod gosodiadau Teleffoni Mewn-Gell yn cael eu hariannu gan gronfa fuddsoddi BT sydd â'i chyfyngiadau amser/ariannol ei hun. Mae 13 o garchardai ar ôl yn yr ystâd gaeedig sydd angen y cyllid hwn, ac un ohonynt yw CEM Brynbuga. Ni ellir cadarnhau dyddiad gosod ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r trafodaethau'n parhau.<br><br>Ar hyn o bryd nid yw'r ystâd agored gan gynnwys YOI CEM Prescoed mewn cwmpas i dderbyn Teleffoni Mewn-Gell fel rhan o'r cynllun gosod cyfredol. | HMPPS | Parhaus |
| 6.17 | Argymhelliad [5.11]: Dylai arweinwyr gynyddu mynediad at alwadau fideo diogel er mwyn cynyddu cyfleoedd carcharorion i gadw mewn cysylltiad â'u plant a'u teuluoedd. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Bydd CEM Brynbuga ac YOI CEM Prescoed yn parhau i hyrwyddo a defnyddio'r defnydd o alwadau fideo diogel ar y ddau safle. Bydd y defnydd o'r system yn cael ei fonitro, ac os yw'r nifer sy'n ei dderbyn yn gyfyngedig, bydd hyn yn cael ei archwilio i benderfynu sut i oresgyn unrhyw faterion a nodir. | Y Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau |
| 6.18 | Argymhelliad [5.21]: Dylai lefelau staffio rheolwyr troseddwyr prawf ym Mrynbuga gael eu cynyddu'n ddigonol i ddarparu llwyth achosion y gellir eu rheoli sy'n cefnogi rheolaeth achos effeithiol o gynllunio a dilyniant dedfryd carcharorion. [I'r llywodraethwr] | Wedi'i gytuno | Mae Gwasanaeth Prawf Cymru yn ceisio recriwtio asiantaeth yn rhagweithiol fel mesur uniongyrchol ac yn bwriadu cychwyn ymgyrch recriwtio allanol.<br><br>Rhagwelir y bydd nifer cynyddol o staff Prawf yn cael eu penodi i CEM Brynbuga erbyn Gorffennaf 2022.Disgwylir i'r union nifer gael ei adolygu yn gynnar yn 2022. Y cais cychwynnol fu pedwar aelod ychwanegol o staff Prawf. | Y Llywodraethwr | Gorffennaf 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.19 | Argymhelliad [5.28]: Dylid sefydlu IRMT ym Mhrescoed i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cydweithredol a goruchwylio rheoli risg ar waith ar draws y carchar. Wedi'i gyfeirio at: y llywodraethwr | Wedi'i gytuno | Mae YOI CEM Prescoed bellach wedi sefydlu cyfarfod Tîm Rheoli Risg Rhyngadrannol misol, gan gadw at ganllawiau cenedlaethol. Bydd cyfarfodydd achlysurol hefyd yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Bydd cylch gorchwyl [ToR] a'r agenda yn cofnodi presenoldeb ym mhob cyfarfod, fel y nodir yn y canllawiau cenedlaethol. Bydd ToR yn gorfodi presenoldeb yr Uwch Dîm Rheoli. | Y Llywodraethwr | Wedi'i gwblhau |
| 6.20 | Argymhelliad [5.32]: Dylai'r meini prawf ar gyfer derbyn carcharorion ag euogfarnau rhywiol ym Mhrescoed gael eu hadolygu i sicrhau y gall carcharorion symud ymlaen fel y cynlluniwyd. Argymhelliad wedi'i ailadrodd S45] [I HMPPS] | Wedi'i gytuno | Bydd HMPPS Cymru ac YOI CEM Prescoed yn gofyn am adolygiad arall o'r meini prawf yng ngoleuni pryderon HMIP, ac yn gofyn y caiff hyn ei adolygu bob blwyddyn. | HMPPS | Rhagfyr 2021 |

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| Wedi'i gytuno | 17 |
| Wedi'i gytuno'n Rhannol | 1 |
| Heb ei gytuno | 2 |
| **Cyfanswm** | **20** |